Rhif: WG33076

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o’r ymatebion

## Diwygio cynlluniau pensiwn diffoddwyr tân yng Nghymru

- Buddion goroeswyr o dan Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992 a Chynllun Digolledu 2007, ynghyd â mân ddiwygiadau eraill i Gynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992 a 2007.
- Mân ddiwygiadau i Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2015 a Threfniadau Trosiannol

11 Mai 2018

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978-1-78937-110-9

**Ymateb Llywodraeth Cymru ar ddiwygiadau i gynlluniau pensiwn diffoddwyr tân yng Nghymru.**

**Buddion goroeswyr o dan Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 1992 a Chynllun Digolledu 2007, ynghyd â mân ddiwygiadau eraill i Gynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992 a 2007**

**Mân ddiwygiadau i Gynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân a Threfniadau Trosiannol.**

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Pob sefydliad sydd â buddiant yng nghynlluniau pensiwn diffoddwyr tân yng Nghymru, gan gynnwys Diffoddwyr Tân, y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru ac undebau'r diffoddwyr tân. |
| **Trosolwg** | Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad gan gynnwys ymateb Llywodraeth Cymru. |
| **Camau i'w cymryd** | Dim – er gwybodaeth yn unig |
| **Gwybodaeth bellach** | Dylid anfon ymholiadau ynglŷn â'r ddogfen hon at:<br>Kerry Citric<br>Cangen Gwasanaethau Tân<br>Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus<br>Llywodraeth Cymru<br>Rhyd-y-car<br>Merthyr Tudful<br>CF48 1UZ<br>Ffôn: 0300 062 8226 |
| **Copïau ychwanegol** | Gellir gweld y ddogfen hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn:<br>https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/diwygiadau-i-gynlluniau-pensiwn-diffoddwyr-tan-yng-nghymru |
| **Dogfennau cysylltiedig** | Ymgynghoriad ar ddiwygiadau i gynlluniau pensiwn diffoddwyr tân yng Nghymru a gyhoeddwyd ym mis Medi 2017. Gorchymyn Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2018 a Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2018. |

## 1. Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar ddau offeryn statudol drafft ("OS") sy'n diwygio darpariaethau pensiwn a digolledu diffoddwyr tân.

OS 1 – Mae Gorchymyn Drafft Diwygio Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) 2018 yn cynnig diwygiadau i:-

- Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 1992 ("Gorchymyn 1992"), sy'n llywodraethu Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 1992 ("Cynllun 1992");
- Gorchymyn Cynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 ("Gorchymyn 2007"), sy'n llywodraethu Cynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) ("y Cynllun Digolledu");
- Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 ("Gorchymyn 2007"), sy'n llywodraethu Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân 2007 ("Cynllun 2007");
  a
- Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio a Darpariaethau Trosiannol) 2016

Byddai'r newidiadau arfaethedig mwyaf sylweddol yn diwygio Cynllun 1992 a Chynllun Digolledu 2007 i ganiatáu i wŷr a gwragedd priod a phartneriaid sifil diffoddwyr tân cymwys, sy'n marw o ganlyniad i anafiadau a gafwyd ar ddyletswydd, gadw eu buddion pe byddent yn ailbriodi neu'n cychwyn partneriaeth sifil newydd.

Mae diwygiadau arfaethedig eraill yn cynnwys egluro nad yw'r darpariaethau trosiannol a wnaed gan Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio a Darpariaethau Trosiannol) 2016 yn gymwys ar gyfer cyfraniadau'r cyflogwr nac ar gyfer cyfraniadau buddion pensiwn ychwanegol, ynghyd â mân ddiwygiadau eraill i Gynlluniau 1992 a 2007.

Cyfeiriodd y ddogfen ymgynghorol hefyd at erthyglau ychwanegol a fyddai'n cael eu cynnwys yn y Gorchymyn ar ôl yr ymgynghoriad i ddiwygio Gorchymyn 2007 yn dilyn dyfarniad y Goruchaf Lys yn 2017[1]. Bydd yr erthyglau hyn yn dileu'r gofyniad yng Nghynllun 2007 i aelodau'r cynllun enwebu partner sy'n cyd-fyw â hwy i fod yn gymwys ar gyfer derbyn buddion goroeswr. O ystyried na fydd y diwygiadau hynny ond yn adlewyrchu dyfarniad y Goruchaf Lys, ni chynhaliwyd ymgynghoriad ar yr elfen hon o'r Gorchymyn.

OS 2 – Mae'r Rheoliadau Drafft Diwygio Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2018 yn gwneud mân ddiwygiadau i Reoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015.

[1] **Brewster**, Parth Cais am Adolygiad Barnwrol [2017] UKSC 8. 8 Chwefror 2017

## 2. Proses ymgynghori

Dechreuodd cyfnod ymgynghori 12 wythnos ar 28 Medi 2017 a oedd yn derbyn ymatebion tan 21 Rhagfyr 2017. Roedd 6 chwestiwn ar ddiwedd y ddogfen ymgynghori, gyda dewisiadau i ymateb i'r cwestiynau hynny drwy'r e-bost, ar-lein neu drwy'r post. Roedd y ddogfen ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Yn benodol roedd yr ymgynghoriad, a oedd yn cynnwys yr OS drafft, yn gwahodd sylwadau ar:-

- Dewisiadau posibl o ran cadw buddion goroeswyr wrth ailbriodi neu gychwyn partneriaeth newydd.
- Diwygiadau arfaethedig a nodwyd yn erthyglau 2, 4(2) a 4(3) o Orchymyn Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2018 a fyddai'n diwygio Cynllun 1992 a Chynllun Digolledu 2007.
- Erthyglau yng Ngorchymyn Diwygio Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) 2018 sy'n berthnasol i Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio a Darpariaethau Trosiannol) 2016 ynghyd â mân ddiwygiadau eraill. Mae'r newidiadau arfaethedig yn ceisio egluro darpariaethau yng Ngorchymyn 2016 sy'n berthnasol i Seibiant Cyfraniadau Pensiwn.
- Rheoliadau drafft yn Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2018 a fyddai'n diwygio mân wallau ac amwyseddau o fewn Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Darpariaethau Trosiannol a Chanlyniadol) 2015.

Cafodd Llywodraeth Cymru 3 ymateb i'r ymgynghoriad, gan Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ac Awdurdod Tân ac Achub De Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ymatebion i'r ymgynghoriad a hoffai ddiolch i'r rhai hynny a ymatebodd.

## 3. Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae'r ddogfen hon yn cynnig crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i bob un o'r cwestiynau penodol, ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru iddynt.

**<u>Cwestiwn 1</u> – Mae Paragraff 6 o'r ddogfen ymgynghori yn darparu 4 dewis posibl mewn cysylltiad ag ôl-gymhwyso'r darpariaethau yn ymwneud â buddion goroeswyr pan eu bod yn ailbriodi neu'n cychwyn partneriaeth sifil. A oes gennych chi unrhyw safbwyntiau ar y dewisiadau hyn, gan gynnwys unrhyw safbwyntiau ar y goblygiadau o ran costau i'r Awdurdodau Tân ac Achub?**

Nododd un Awdurdod Tân ac Achub ei fod yn cefnogi’r cynnig i ganiatáu i oroeswyr diffoddwyr tân cymwys gadw eu buddion pe byddent yn ailbriodi neu’n cychwyn partneriaeth sifil newydd.

Rhoddodd Llywodraeth Cymru bedwar dewis posibl o ran sut i wneud y newidiadau yn ôl-weithredol, fel a ganlyn:-

**Dewis 1** - cyflwyno darpariaeth a fyddai’n gwrthdroi'r ddarpariaeth bresennol yn llwyr heb bennu dyddiad cymhwyso. Byddai hyn yn golygu y byddai pob un o’r rhai hynny y tynnwyd eu buddion yn ôl yn cael eu hadfer a’u hôl-ddyddio yn llwyr hyd at y pwynt tynnu’n ôl.

**Dewis 2** - cyflwyno darpariaeth a fydd yn caniatáu i oroeswyr sy’n ailbriodi neu sy’n cychwyn partneriaeth sifil ar ddyddiad penodol yn y gorffennol, neu ar ôl hynny, (1 Ebrill 2015) gadw eu hawl i fuddion goroeswyr, ac yn ogystal â hyn adfer buddion a gollwyd i bob goroeswr a ailbriododd neu a gychwynnodd bartneriaeth sifil cyn y dyddiad hwnnw, gan adfer y buddion hynny o 1 Ebrill 2015.

**Dewis 3** - caniatáu i oroeswyr sy’n ailbriodi neu sy’n cychwyn partneriaeth sifil ar ddyddiad penodol yn y gorffennol (1 Ebrill 2015) neu ar ôl hynny, gadw eu hawl. Ni fyddai’r rhai hynny a ailbriododd neu a gychwynnodd bartneriaeth sifil cyn hynny yn cael unrhyw beth.

**Dewis 4** - caniatáu i oroeswyr sy’n ailbriodi neu sy’n cychwyn partneriaeth sifil ar ddyddiad penodol yn y dyfodol (1 Ebrill 2018 dyweder) neu ar ôl hynny, gadw eu hawl i fudd-daliadau pensiwn. Ni fyddai’r rhai hynny sydd wedi ailbriodi neu sydd wedi cychwyn partneriaeth sifil yn cael unrhyw beth.

Cytunodd y tri Awdurdod Tan ac Achub y byddai Dewis 2 yn darparu’r agwedd fwyaf cytbwys rhwng tegwch a chost effeithiolrwydd. Fodd bynnag, codwyd pryderon gan un Awdurdod Tân ac Achub na fyddai ailgyflwyno buddion o ddyddiad penodol yn unig (yn yr achos hwn Ebrill 2015) yn darparu cysondeb â’r dyfarniadau diweddar gan y Goruchaf Lys yn yr achosion Walker a Brewster. (Yn yr achosion hynny, roedd y Llys o’r farn bod y cynlluniau pensiwn dan sylw wedi gwahaniaethu ar sail cyfeiriadedd rhywiol a statws priodasol, yn ôl eu trefn, a gorchmynnodd y dylid ôl-ddyddio’r hawl i bensiwn yn llwyr.) Er hynny, nododd yr un awdurdod na fyddai’n dymuno i unrhyw benderfyniad effeithio ar y dull o roi cap ar gostau.

Nodwyd y ffaith bod y cynnig wedi’i gyfyngu i oroeswyr diffoddwyr tân a bu farw o ganlyniad i anafiad a gafwyd wrth ymarfer eu dyletswyddau, neu wrth iddynt deithio i’r gwaith ac yn ôl. Cynigiodd un Awdurdod Tân ac Achub y dylid ymestyn y diwygiadau arfaethedig i bob goroeswr sy’n briod neu sy’n bartner sifil ac y byddai Dewis 3 yn fwy cost effeithiol yn yr achos hwnnw. Dadleuodd awdurdod arall y dylai'r holl aelodau cynllun pensiwn gael eu trin “yn gyfartal ac yn gyson â pholisi cyfredol y Trysorlys” ond ni roddwyd manylion o ran beth oedd y polisi hwnnw, nac unrhyw fanylion o ran sut y dylid rhoi hyn ar waith yn yr achos penodol hwn.

**Cwestiwn 2 –  O gofio eich ateb i gwestiwn 1, a oes gennych chi unrhyw safbwyntiau ar y diwygiadau a nodir yn Erthyglau 2, 4(2) a 4(3) o'r Gorchymyn Drafft yn Atodiad 2 – Gorchymyn Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2018? Mae'r rhain wedi eu drafftio gan ddefnyddio'r egwyddorion a nodir yn newis 2 yr ymgynghoriad?**

Ni wnaed unrhyw sylwadau penodol o ran y diwygiadau a nodwyd yn y Gorchymyn ac eithrio'r rhai hynny a gafodd eisoes eu codi o dan Gwestiwn 1.

**Cwestiwn 3 – A oes gennych chi unrhyw safbwyntiau ar yr Erthyglau eraill yng Ngorchymyn Drafft Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2018 yn Atodiad 2, sy'n ymwneud â Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio a Darpariaethau Trosiannol) 2016 (Seibiant Cyfraniadau Pensiwn) a mân ddiwygiadau eraill?**

Nododd ymatebwyr y mân ddiwygiadau sydd wedi eu cynnwys yng Ngorchymyn Cynlluniau Pensiwn a Chynlluniau Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) 2018, ond ni chafwyd unrhyw sylwadau na safbwyntiau penodol o ran y cynigion.

**Cwestiwn 4 – A oes gennych chi unrhyw safbwyntiau ar y rheoliadau drafft a nodir yn y Gorchymyn Drafft yn Atodiad 3 - Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2018?**

Cytunodd ymatebwyr â'r diwygiadau arfaethedig sydd wedi eu cynnwys yn Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2018.

Y farn oedd y dylai aelodau sy'n cael eu hystyried ar gyfer ymddeoliad oherwydd afiechyd ar yr adeg trosglwyddo aros yn aelodau o'u cynllun gwreiddiol hyd nes y byddai'r broses yn dod i ben. Cytunodd ymatebwyr hefyd y dylai aelodau sydd wedi trosglwyddo o Gynllun 1992 i Gynllun 2015 gadw'r hawl i drosglwyddo rhan o'u pensiwn afiechyd, gan gwblhau'r darpariaethau cyfreithiol sydd eisoes yn pennu trefniadau ar gyfer y rhai hynny sy'n trosglwyddo o Gynllun 2006 i Gynllun 2015.

Cynigiwyd y dylai Bwrdd Ymgynghorol Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân barhau i fonitro a gwerthuso pob achos o afiechyd a'r pwysau cysylltiedig ar y cynlluniau pensiwn y diffoddwyr tân.

**Cwestiwn 5 - Nid ydym yn credu bod y polisi hwn yn effeithio ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg nac yn trin yr iaith yn llai ffafriol na'r Saesneg, nac y gellid ei ailffurfio na'i adolygu i gael effeithiau cadarnhaol. Os nad ydych yn cytuno â hyn, byddem yn croesawu eich sylwadau ar y mater hwn..**

Ni chafwyd unrhyw sylwadau.

**<u>Cwestiwn 6</u> – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau, ond a oes unrhyw faterion eraill yr hoffech eu codi yn y maes hwn?**

Cododd un Awdurdod Tân ac Achub bryder nad oedd y ddau Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb, a oedd yn cyd-fynd â'r ymgynghoriad, yn adlewyrchu'n gywir swyddogaeth Bwrdd Ymgynghorol Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân ar gyfer Cymru.

## 4. Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ymatebion i'r ymgynghoriad a gafwyd a hoffai ddiolch i'r rhai hynny a gyfrannodd at yr ymgynghoriad.

Roedd sylwadau allweddol yr ymatebwyr yn ymwneud â chynigion ar gyfer buddion goroeswyr a oedd yn canolbwyntio ar ddiwygiadau i ganiatáu i oroeswyr, sy'n briod neu sydd mewn partneriaeth sifil â diffoddwyr tân sy'n marw o ganlyniad i'w dyletswyddau, gadw eu buddion pe byddent yn ailbriodi neu'n cychwyn partneriaeth sifil newydd.

Rydym ni'n nodi, gyda rhywfaint o amodau, fod ymatebwyr wedi dweud eu bod fwyaf o blaid Ddewis 2, sef y Dewis a ffafriwyd gan Lywodraeth Cymru hefyd, a'r sail ar gyfer yr erthyglau perthnasol yn y Gorchymyn drafft.

Rydym yn cydnabod y farn y byddai'n ofynnol, er mwyn cael gwared ar unrhyw wahaniaethu posibl ar sail statws priodasol, wneud diwygiadau pellach i Gynllun 1992 i atal rhag tynnu buddion pensiwn goroeswr oddi wrth briod neu bartner sifil pob diffoddwr tân sy'n marw wrth iddynt ailbriodi neu gychwyn partneriaeth sifil newydd (nid y rhai hynny a fu farw yn y swydd yn yr amgylchiadau a nodwyd yn y Gorchymyn drafft yn unig). Mae'r farn hon yn berthnasol i faterion sydd y tu allan i gwmpas penodol yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r materion a godwyd a bydd yn eu hystyried ar wahân ac yn fwy manwl maes o law.

Yn ogystal â hynny, cynigiodd un ymatebydd y dylid sicrhau cysondeb wrth ôl-weithredu,a hynny mewn perthynas â'r holl newidiadau i'r cynllun sy'n gysylltiedig â buddion goroeswyr, gan ddyfynnu'r dyfarniadau diweddar gan y Goruchaf Lys yn achosion <u>Brewster</u> a <u>Walker</u>. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y farn hon yn ofalus. Yn wir, roedd Dewis 1 yn yr ymgynghoriad gwreiddiol yn darparu ar gyfer ôl-weithredu llwyr hyd at y pwynt y tynnwyd y buddion yn ôl. Nid hwn fodd bynnag oedd y dewis a ffafriwyd gennym ni oherwydd y gallai achosi costau canlyniadol sylweddol i'r Awdurdodau Tân ac Achub. Hynny yw, oherwydd yr ariennir dyfarniadau arbennig ac estynedig yn achos marwolaeth gan gyllidebau'r Awdurdodau Tân ac Achub yn uniongyrchol ac nid gan gronfeydd pensiwn. Fodd bynnag, gwnaethom nodi y gallai hyn fod yn ddichonadwy, pe byddai'n glir bod y costau ôl-weithredol yn gyfyngedig neu'n hawdd eu trin. O ganlyniad i'r ymatebion i'r ymgynghoriad rydym ni wedi adolygu cost ôl-weithredu buddion yn llwyr ar gyfer partneriaid sydd wedi goroesi, ar y cyd ag Awdurdodau Tân ac Achub. Credwn fod y costau hyn (ar gyfer dau Awdurdod Tân ac Achub; ymddengys nad oes achosion perthnasol yn y trydydd awdurdod) yn fwy na £200,000 ar brisiau cyfredol. Mae Llywodraeth Cymru wedi dod i'r casgliad na fyddai'r fath gostau'n gyfyngedig nac yn hawdd eu trin ar adeg pan fo

cyllidebau ar gyfer gwasanaethau rheng flaen o dan bwysau sylweddol. Felly, ni fyddwn yn dilyn Dewis 1.

Mae’n bwysig nodi bod dyfarniadau yn achosion Brewster a Walker yn ystyried bod y cynlluniau pensiwn dan sylw wedi gwahaniaethu yn anghyfreithlon ar sail statws priodasol a chyfeiriadedd rhywiol, yn ôl eu trefn. Fel y cyfryw, dyfarnodd y Llys fod rheolau’r cynllun yn anghyfreithlon, ac y buont felly erioed; a bod angen iddynt (yn ogystal â rheolau mewn cynlluniau pensiwn eraill) gael eu diwygio yn briodol, gan ôl-weithredu’n llwyr. Nid yw hynny’n rhesymol yn yr achos hwn. Yn hytrach, rydym yn ceisio dileu’r hyn yr ydym yn ei ystyried yn driniaeth lem o’r rhai hynny sy’n galaru pan fo diffoddwyr tân yn marw o ganlyniad i anafiad a gafwyd ar ddyletswydd neu yn ystod taith sydd ei hangen er mwyn iddynt fynd i’w swydd neu ddychwelyd adref ar ôl hynny. Nid oes hawliadau ar gyfer gwahaniaethu anghyfreithlon wedi eu gwneud, ac ni chafwyd unrhyw ddyfarniad bod rheolau’r cynllun yn anghyfreithlon, nac wedi bod felly erioed.

Bydd Llywodraeth Cymru felly yn parhau â’r cynigion i fabwysiadu Dewis 2 fel y’i nodwyd yn y ddogfen ymgynghori. O ganlyniad i hyn, mae’r unig newidiadau i Orchymyn Drafft Diwygio Cynllun Pensiwn a Chynllun Digolledu'r Diffoddwyr Tân (Cymru) 2018 yn ymwneud â diwygiadau i Gynllun 2007 i adlewyrchu dyfarniad Brewster. Bydd hyn yn golygu tynnu’r gofyniad i aelodau’r cynllun enwebu partner sy’n cyd-fyw â hwy i fod yn gymwys i dderbyn buddion goroeswyr. Bydd unrhyw berson a all ddangos y bu mewn perthynas gymwys ag aelod o’r cynllun a fu farw ar adeg y farwolaeth yn gymwys i gael buddion o’r fath, ni waeth unrhyw enwebiad blaenorol. Bydd y darpariaethau hyn yn ôl-weithredol o’r pwynt pan ddaeth Cynllun 2007 i rym. Esboniodd y ddogfen ymgynghori na fyddai unrhyw ymgynghoriad ar y diwygiad hwn o ystyried na fydd yn gwneud dim ond adlewyrchu dyfarniad y Goruchaf Lys.

Ni chodwyd unrhyw faterion penodol yn rhan o’r ymgynghoriad o ran y diwygiadau arfaethedig eraill i gynlluniau 1992, 2007 a 2015. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu parhau felly gyda chyflwyniad Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2018 a chyda’r Gorchymyn Cynlluniau Pensiwn a Chynllun Digolledu’r Diffoddwyr Tân (Cymru) (Diwygio) 2018 yn amodol i’r diwygiadau y cyfeiriwyd atynt uchod.

Bwriad y cyfeiriadau at Fwrdd Ymgynghorol Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân ar gyfer Cymru oedd darparu crynodeb bras o swyddogaethau’r Bwrdd. Yn sgil y pryder a godwyd o ran cywirdeb y disgrifiad, fodd bynnag , mae hyn wedi’i ddiwygio i adlewyrchu’n fwy cywir swyddogaeth y Bwrdd fel y’i nodwyd yn Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015.